PAPUR/ENCLOSURE
C

Un Llais Cymru / One Voice Wales
24 College Street
Amanford
SA18 3AF

Annwyl Foneddigion

**YNG.: Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru ("SCFNW")**

Fel y byddwch yn gwybod, mae Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 (sydd ar hyn o bryd yn disgwyl gorchymyn cychwyn) yn nodi bod yn rhaid i Gynghorau Cymuned beri bod gwybodaeth benodol ar gael yn electronig ar eu gwefannau (i gynnwys gwybodaeth am eu haelodau, cofnodion cyfarfodydd, archwiliadau a datganiadau o gyfrifon y Cyngor). Pan gyflwynir y gorchymyn cychwyn, bydd yn rhaid i nifer o Gynghorau Cymuned weithredu gwefan am y tro cyntaf ac ni fydd ganddynt fawr o brofiad o wneud hyn, os o gwbl. Mae'n ddiau, pan ddaw yn fater o gyflawni'r gofynion statudol yn y newidiadau, y byddwch yn rhoi cymorth i Gynghorau Cymuned ar sut i ddiweddaru eu gwefannau. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech ddarparu gwybodaeth am y trefniadau moesegol canlynol sy'n berthnasol i Gynghorau Cymuned :-

- (i) Manylion ar ofynion y côd ymddygiad fel y maent yn berthnasol i Gynghorwyr Cymuned;
- (ii) Manylion ynglŷn â sut y gall aelodau o'r cyhoedd wneud cwynion yn erbyn Cynghorau Cymuned; a
- (iii) Gwybodaeth am awdurdod (a) Pwyllgorau Safonau Awdurdodau Lleol, a (b) Panel Dyfarnu Cymru pan yn gwrando cwynion yn erbyn Cynghorau Cymuned.

Rydym yn awgrymu mai'r amser gorau i gynhyrchu'r wybodaeth hon fyddai pan gyflwynir y gorchymyn cychwyn.

Ar nodyn arall, mae'r SCFNW hefyd yn bryderus oherwydd y nifer o gwynion i awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru yn ymwneud â ffaeleddau gweinyddol Cynghorau Cymuned. Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol iawn i Gynghorau Cymuned pe gallai Un Llais Cymru helpu gyda chyhoeddi Pecyn Cymorth fel yr un a ddarparwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Safonau ar gyfer Lloegr i Gynghorau Cymuned, y gellir gweld copi ohono yma :- [INSERT LINK]

Rydym hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er gwybodaeth ac edrychwn ymlaen at glywed gennych mor fuan ag sy'n bosibl.

Cofion gorau

Yr eiddoch yn gywir,

Cadeirydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru

CC-017471-AP/20148003210